Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024** |
| **DYDDIAD** | **9 Hydref 2024** |
| **GAN** | **Huw Irranca-Davies AS/MS**<br>**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**<br>**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs** |

Bydd Aelodau o'r Senedd yn dymuno cael gwybod ein bod yn rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth mewn maes datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnodd yr Arglwydd Douglas-Miller, y Gweinidog Bioddiogelwch, Iechyd a Lles Anifeiliaid ar y pryd am gydsyniad i wneud Offeryn Statudol o'r enw Rheoliadau Llygryddion Organig Parhaus (Diwygio) 2024 ("Rheoliadau 2024") i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru drwy arfer pwerau a roddir gan Reoliad (UE) 2019/1021 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Lygryddion Organig Parhaus (ail-lunio) ("Rheoliadau POPs").

Gosodwyd Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ar 8 Hydref gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy arfer pwerau a roddir gan Erthyglau 7(6), 15(1) a (2), a 18(1) o Reoliadau POPs.

Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio Atodiadau I, IV a V o Reoliadau POPs. Mae angen diwygiadau i Atodiad 1 mewn perthynas â chofnodion ar gyfer asid Perfflwooroctanoig, Hecsaclorobensen, a Phentacloroffenol i sicrhau bod y DU yn parhau i gyflawni ei rhwymedigaethau cyfreithiol fel llofnodwyr ar Gonfensiwn Stockholm ar Lygryddion Organig Parhaus. Mae atodiadau IV a V wedi eu diwygio i adlewyrchu cynnydd gwyddonol a thechnegol.

Mae Atodiad IV wedi ei ddiwygio ac ychwanegir sylweddau newydd at y rhestr o'r rhai sy'n ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoli gwastraff. Mae Erthygl 7 o Reoliadau POPs yn darparu *"Producers and holders of waste shall undertake all reasonable efforts to avoid, where feasible, contamination of this waste with substances listed in Annex IV"*. Mae rheoliad 7 o Reoliadau Gwastraff Organig Parhaus 2007 yn darparu ei bod yn drosedd i berson fynd

yn groes i Erthygl 7. Mae ychwanegu sylweddau at y rhestr yn Atodiad IV yn ehangu cwmpas y drosedd honno.

Mae Erthygl 7(4)(b) o Reoliadau POPs yn darparu y gall yr awdurdod cymwys, mewn achosion eithriadol, ganiatáu i wastraff a restrir yn Rhan 2 o Atodiad V gynnwys neu gael ei halogi gan sylwedd a restrir yn Atodiad IV hyd at derfynau crynodiad a bennir yn Rhan 2 o Atodiad V. Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio Atodiad V i leihau'r terfynau crynodiad uchaf ar gyfer Pentacloroffenol, ei halwynau, a'i esterau, Dicoffol, asid Perfflworooctanoig (PFOA), ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFOA, asid sylffonig Perfflworohecsan (PFHxS), ei halwynau a chyfansoddion sy'n gysylltiedig â PFHxS. Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio'r tabl yn Rhan 2 o Atodiad V ymhellach i gynnwys y gwastraff canlynol o brosesau thermol: lludw sy'n codi o fawn a phridd a cherrig a phren heb ei drin (ac eithrio'r rhai sy'n cynnwys sylweddau peryglus).

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Fodd bynnag, ar yr achlysur hwn, ystyrir ei bod yn briodol i hanfod y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru gan nad oes gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU ar y mater hwn. Yn fy marn i, nid deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac ni fyddai'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill

Gosodwyd Rheoliadau 2024 gerbron Senedd y DU ar 8 Hydref a byddant yn dod i rym 21 diwrnod ar ôl y diwrnod y cânt eu gwneud.